

Briff Ymchwil

# Deddfau'r Cynulliad a'r Broses Ddeddfwriaethol – Hysbysiad hwylus am y Cyfansoddiad

**Awdur:** Alys Thomas

**Dyddiad:** Mawrth 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Alys Thomas**
Dyddiad: **Mawrth 2018**
Rhif Papur: **18-012**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6305**
: **Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Deddfau'r Cynulliad a'r Broses Ddeddfwriaethol – Hysbysiad hwylus am y Cyfansoddiad

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Deddfau'r Cynulliad a'r Broses Ddeddfwriaethol

## Beth yw Deddfau'r Cynulliad?

O dan ***Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*** ("Deddf 2006"), fel y'i diwygiwyd, gall y Cynulliad Cenedlaethol basio deddfwriaeth sylfaenol, a elwir yn "Ddeddfau'r Cynulliad", mewn materion lle mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol.

Mae Adran 108 o Ddeddf 2006, ynghyd â **Rhan 1 o Atodlen 7**, yn nodi maint cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn 21 maes pwnc. Gelwir hyn yn fodel datganoli 'rhoi pwerau'.

Fodd bynnag, mae ***Deddf Cymru 2017*** yn symud y Cynulliad Cenedlaethol i fodel datganoli 'cadw pwerau', fel y mae ar hyn o bryd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r model 'cadw pwerau' yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu deddfau ar unrhyw fater nad yw Llywodraeth y DU wedi'i gadw'n benodol. Daw'r model hwn i rym ar 1 Ebrill 2018 (y cyfeirir ato weithiau fel y **Prif Ddiwrnod Penodedig**).

Mae gan Ddeddf y Cynulliad yr un grym a statws cyfreithiol â Deddf Senedd y DU. Felly gall, er enghraifft, addasu Deddfau Seneddol presennol neu ddeddfiadau eraill mewn meysydd datganoledig, a gall wneud darpariaeth newydd nad yw statudau presennol yn ei chynnwys.

Mae Senedd y DU, fodd bynnag, yn cadw'r hawl i ddeddfu mewn perthynas â Chymru, hyd yn oed ar faterion y mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol ynddynt. Yn yr achosion hyn, fel rheol, mae'n gofyn am 'Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol'.

## Cyflwyno Bil

Mae Adran 110 ac Adran 111 o Ddeddf 2006 yn gosod gofynion penodol o ran cyflwyno Biliau Cynulliad arfaethedig gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n nodi y gall Prif Weinidog Cymru, unrhyw Weinidogion Cymru, unrhyw Ddirprwy Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu unrhyw Aelod Cynulliad gyflwyno Bil y Cynulliad, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau yn y Rheolau Sefydlog.

Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am Fil Cynulliad, wrth gyflwyno'r Bil, neu cyn hynny, wneud datganiad yn mynegi ei farn bod y darpariaethau yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhaid i'r Llywydd benderfynu, wrth i'r Bil gael ei gyflwyno, neu cyn hynny, a yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ai peidio, ac i ddatgan y penderfyniad hwnnw.

Mae Adran 111 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol gynnwys darpariaethau penodol mewn perthynas ag ystyried a phasio Deddfau'r Cynulliad. Un ohonynt yw bod yn rhaid i Fil, yn gyffredinol, fynd drwy o leiaf dri chyfnod:

– Rhaid cael dadl gyffredinol a phleidlais ar ei egwyddorion cyffredinol;

– Yna rhaid bod cyfnod sy'n cynnwys ystyried manylion y Bil a phleidleisio arnynt; a

– Rhaid bod cyfnod lle gall Aelodau bleidleisio a ddylid pasio'r Bil yn ei ffurf derfynol.

Rhaid i Fil gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg ac eithrio yn yr achosion canlynol:

– os yw'r Aelod sy'n gyfrifol amdano yn datgan mewn ysgrifen, mewn perthynas â Bil llywodraeth, na fyddai, am resymau penodedig, yn briodol o dan yr amgylchiadau nac yn rhesymol ymarferol i'r Bil gael ei gyflwyno yn y ddwy iaith; neu

– os nad yw gwneud hynny yn cyd-fynd â phenderfyniadau a gyhoeddwyd gan y Llywydd.

Ar yr un pryd ag y mae Aelod yn cyflwyno Bil, rhaid iddo hefyd osod Memorandwm Esboniadol a rhaid i hwn gynnwys ystod o wybodaeth fanwl, gan gynnwys ei farn ynghylch a fyddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; amcanion polisi'r Bil; manylion y Bil ac amcangyfrifon ynghylch costau.

## Gwahanol fathau o Filiau Cynulliad

Mae biliau'r Cynulliad yn:

- Gyhoeddus – sy'n ceisio newid y gyfraith gyffredinol; neu
- Preifat - sy'n ceisio pwerau ar gyfer unigolyn neu sefydliad penodol sydd yn fwy na'r gyfraith gyffredinol neu'n gwrthdaro â hi; neu
- Hybrid (Bil Cyhoeddus sy'n cynnwys darpariaethau sy'n debyg o ran natur i ddarpariaethau Bil Preifat).

Hyd yma, mae pob Bil a ystyriwyd gan y Cynulliad wedi bod yn Fil Cyhoeddus.

Mae Rheol Sefydlog 26 yn nodi'r gweithdrefnau manwl ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol wrth graffu ar Filiau Cyhoeddus. Mae'n darparu y bydd termau gwahanol yn cael eu defnyddio i ddisgrifio Bil Cyhoeddus, yn dibynnu pwy sy'n gyfrifol am ei gyflwyno. Y biliau hyn yw:

- Biliau'r Llywodraeth.
- Biliau Pwyllgor
- Biliau'r Comisiwn
- Biliau Aelodau

Ni all aelod o Lywodraeth Cymru fod yn Aelod sy'n gyfrifol am Fil Pwyllgor, Bil y Comisiwn na Bil Aelod.

## Y gofyn am uwch-fwyafrif ar gyfer rhai deddfwriaethau

Mae Adran 9 o *Ddeddf Cymru 2017* yn creu gofyniad uwch-fwyafrif ar gyfer unrhyw Filiau sy'n ymdrin â phwnc a warchodir. Mae'r gofyniad uwch-fwyafrif yn golygu na chaiff Bil, sy'n ymdrin â phwnc a warchodir, ei basio oni bai bod dwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddau Cynulliad yn pleidleisio o blaid hynny yn y cyfnod olaf.

Mae'r materion hyn fel a ganlyn:

> *(a) enw'r Cynulliad,*
>
> *(b) y personau sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad ar gyfer aelodaeth y Cynulliad,*
>
> *(c) y system ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad,*
>
> *(d) manylion yr etholaethau, rhanbarthau neu unrhyw ardal etholiadol gyfatebol neu eu nifer,*
>
> *(e) nifer yr aelodau i'w hethol ar gyfer pob etholaeth, rhanbarth neu ardal etholiadol gyfatebol, a*
>
> *(f) nifer y personau a gaiff fod yn Weinidogion Cymru i'w penodi o dan adran 48 neu'n Ddirprwy Weinidogion Cymru.*

Y Llywydd sy'n gyfrifol am benderfynu a yw Bil yn ymdrin â phwnc a warchodir ai peidio.

## Ystyried Bil

Mewn cydsyniad ag Adran 111 o Ddeddf 2006, mae Rheol Sefydlog 26 yn nodi bod Bil yn mynd drwy sawl cyfnod cyn iddo ddod yn Ddeddf:

**Cyfnod 1: Ystyried yr Egwyddorion Cyffredinol**

Ar ôl i Fil gael ei gyflwyno, bydd pwyllgor cyfrifol yn ymgymryd â'r dasg o ystyried ei egwyddorion cyffredinol (er y gall y Pwyllgor Busnes osgoi'r rhan hon o'r broses). Unwaith y bydd y pwyllgor cyfrifol wedi adrodd (neu beidio, os caiff y cyfnod hwn ei osgoi) bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn ynghylch a ddylid cytuno â'r egwyddorion cyffredinol.

Mae Cyfnod 1 ar ben pan gytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil neu pan fydd y Bil yn methu yng Nghyfnod 1.

**Cyfnod 2: Ystyriaeth Fanwl gan Bwyllgor (cyfnod cyflwyno gwelliannau)**

Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, yna rhoddir ystyriaeth fanwl iddo , gan gynnwys drwy gyflwyno gwelliannau i'r Bil, ac ystyriaeth fanwl y pwyllgor ynghylch gwelliannau o'r fath. Caiff gwelliannau eu hystyried gan bwyllgor cyfrifol (fel arfer yr un a oedd yn ei ystyried yng Nghyfnod 1).

Mae Cyfnod 2 ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu, neu pan fernir bod cytundeb ar yr adran neu'r atodlen olaf gan y pwyllgor sy'n gyfrifol, pa un bynnag yw'r olaf.

**Cyfnod 3: Ystyried Bil yn y Cyfarfod Llawn (cyfnod cyflwyno gwelliannau)**

Rhaid i drafodion Cyfnod 3 Bil gael eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn. Gellir diwygio Bil yn y cyfnod hwn yn yr un modd ag y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2. Yn ystod Cyfnod 3, mae'r Llywydd yn dewis pa welliannau sydd i'w hystyried (hyd yma, mae Llywyddion y Pedwerydd a'r Pumed Cynulliad wedi dewis dethol pob gwelliant a gyflwynir i Filiau).

Mae Cyfnod 3 ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i gwblhau neu pan fernir bod cytundeb ar yr adran neu'r atodlen olaf, pa un bynnag yw'r olaf.

Yn dilyn trafodion Cyfnod 3, gall yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried gwelliannau pellach yn y Cyfnod Adrodd cyn bod pleidlais ar y Bil yng Nghyfnod 4. Mae gwelliannau a ystyrir yn ystod y Cyfnod Adrodd yn ddarostyngedig i'r un prosesau a gweithdrefnau â gwelliannau a ystyrir yn ystod trafodion Cyfnod 3.

**Cyfnod 4: Y cyfnod terfynol**

Ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd), gellir cyflwyno cynnig bod y Bil yn cael ei basio. Ni chaiff cynnig o'r fath ei ystyried tan o leiaf bum niwrnod gwaith ar ôl cwblhau Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd).

Fel arall, gyda chytundeb y Llywydd, gellir gwneud cynnig bod y Bil yn cael ei basio yn union ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3 (neu'r Cyfnod Adrodd). Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi pasio Bil, mae cyfnod o bedair wythnos lle mae'r canlynol yn digwydd:

- caiff y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r cwestiwn a yw'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, i'r Goruchaf Lys i gael penderfyniad; a

– chaiff Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd y Bil rhag cael ei anfon i gael Cydsyniad Brenhinol.

Yn amodol ar nad oes her o'r fath, mae Clerc y Cynulliad Cenedlaethol yn cyflwyno'r Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines yn y cyfrin Gyngor (ar ôl 1 Ebrill 2018, y Llywydd, yn hytrach na'r Clerc, fydd yn cyflwyno'r Bil ar gyfer cael Cydsyniad Brenhinol). Unwaith y bydd y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol (cymeradwyaeth), rhaid i Glerc y Cynulliad Cenedlaethol ysgrifennu dyddiad y gymeradwyaeth honno ar destun y Ddeddf, rhaid iddi gyhoeddi'r offeryn y cymeradwywyd y Ddeddf drwyddo a rhaid iddi, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, roi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol am ddyddiad y gymeradwyaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am broses ddeddfwriaethol y Cynulliad i'w chael yn: **Cyfnodau Biliau Cyhoeddus**.

## Biliau Aelodau

O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth sy'n dymuno cyflwyno Bil Aelodau.

Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y bleidlais enwau'r holl Aelodau sydd wedi gwneud cais i gael eu cynnwys ac sydd wedi cyflwyno gwybodaeth cyn y bleidlais, sef teitl arfaethedig y Bil a'i amcanion polisi.

Os bydd pleidlais yn llwyddiannus, rhaid i'r Aelod ofyn am ganiatâd y Cynulliad i gyflwyno'r Bil. Yn y Pedwerydd Cynulliad, arweiniodd y broses hon at , a'r ***Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013***.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses Biliau Aelodau ar gael ar y dudalen ***Biliau Aelodau.***

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y cyfansoddiad, cysylltwch ag Alys Thomas (**alys.thomas@cynulliad.cymru**).